OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 797

# Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022

## RHAN 5

## Diwygiadau amrywiol a chanlyniadol

**Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021**

**18.**—(1) Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 16 o'r Atodlen—

(a) yn is-baragraff (1)(c), ar ôl "rheolaeth fewnol" mewnosoder ", rheoli perfformiad";

(b) ar ôl is-baragraff (1)(d) mewnosoder—

"(da) adolygu ac asesu gallu CBC y De-ddwyrain i ymdrin â chwynion yn effeithiol;

(db) gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu CBC y De-ddwyrain i ymdrin â chwynion yn effeithiol;";

(c) ar ôl is-baragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Gweler Pennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad prif gynghorau a'u llywodraethu), fel y'i cymhwysir gan adran 115A o'r Ddeddf honno ac Atodlen 10A iddi, ar gyfer swyddogaethau pellach yr is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio.";

(d) yn is-baragraff (2)(a), yn lle "bod o leiaf un aelod o'r is-bwyllgor yn berson nad yw'n aelod" rhodder "nad yw traean o aelodau'r is-bwyllgor hefyd yn aelodau";

(e) yn is-baragraff (2)(b) yn lle "y cyfansoddir o leiaf ddau draean o'r aelodaeth gan" rhodder "bod dau draean o aelodau'r is-bwyllgor hefyd yn";

(f) hepgorer is-baragraff (2)(c)(iv) a'r "neu" sy'n dod o'i flaen;

(g) ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(2A) Os yw person a ddisgrifir yn is-baragraff (2)(b) ("P") yn peidio â bod yn aelod o gyngor cyfansoddol, mae P hefyd yn peidio â bod yn aelod o'r is-bwyllgor llywodraethu ac archwilio."

(**1**) O.S. 2021/343 (Cy. 97).